Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Morfa Nefyn

**Morfa Nefyn**
**Pwllheli**
**Gwynedd**
**LL53 6AR**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Cynhaliwyd yr arolygiad hwn fel rhan o drefniadau arolygu peilot. O ganlyniad, gallai'r adroddiad hwn fod â fformat ychydig yn wahanol i adroddiadau cyhoeddedig eraill ar gyfer darparwyr yn y sector.**

## Gwerthusiad

Mae Ysgol Morfa Nefyn yn gymuned hapus sy’n darparu addysg a gofal o safon uchel ar gyfer ei disgyblion. Mae staff yn darparu cwricwlwm sy’n cefnogi’r disgyblion i wneud cynnydd cadarn yn eu medrau. Mae staff yn cydweithio’n agos â rhieni ac aelodau’r gymuned i ddatblygu ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad y disgyblion o hanes a thraddodiadau eu cynefin yn Llŷn.

Mae’r pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir ar gyfer yr ysgol. Mae ei gweledigaeth wedi ei seilio’n angerddol ar sicrhau addysg ysgogol a chynhwysol i ddisgyblion. Mae’n cydweithio’n agos â thîm gweithgar o staff, a’r corff llywodraethol, i sicrhau profiadau dysgu cyfoethog ac ymestynnol ar gyfer y disgyblion. Mae arwyddair yr ysgol, ‘dringa i fyny, dringa i’r sêr,’ yn crisialu’r weledigaeth hon o anelu am ragoriaeth, yn llwyddiannus.

Mae disgyblion yn hynod gyfeillgar ac amyneddgar gyda’u ffrindiau a disgyblion eraill, yn ystod eu gweithgareddau ac yn ystod amseroedd egwyl a chinio. Mae’r rheolau clir yn gymorth iddynt ddeall pwysigrwydd bod yn garedig at eraill ac yn cefnogi eu hymddygiad rhagorol. Mae disgyblion yn barod i drafod unrhyw bryderon ac yn datgan eu bod yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol. Maent yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a’u trin yn deg. Mae staff yn meithrin awyrgylch agored a chynhaliol ac yn cynnal diwylliant effeithiol o ddiogelu. Mae presenoldeb y disgyblion yn gyson gryf dros amser.

Mae gan staff berthynas agos a chynhaliol â rhieni sy’n cefnogi disgyblion i fwynhau eu dysgu trwy weithgareddau ysgogol, er enghraifft wrth annog disgyblion i hel mwyar duon gyda’u rhieni er mwyn creu crymbl yn yr ysgol yr wythnos ganlynol. Rhennir gwybodaeth yn gyson â rhieni am gyflawniad a chynnydd eu plant, ac mae gweithdrefnau effeithiol ar gyfer sicrhau trosglwyddo hapus ar ddiwedd Blwyddyn 3.

Mae gan yr ysgol drefniadau trylwyr i gefnogi disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae staff yn cydweithio’n agos ag asiantaethau allanol er mwyn rhoi cefnogaeth arbenigol i ddisgyblion. Mae athrawon yn adnabod cynnydd disgyblion yn dda ac yn cynllunio’n ofalus i sicrhau bod disgwyliadau uchel ar gyfer bob un.

Mae athrawon yn cynllunio’n systematig ar gyfer sicrhau cynnydd yn natblygiad medrau’r disgyblion. Mae’r holl staff yn cydweithio’n rhagweithiol er mwyn cynnal bwrlwm y dysgu gan ennyn a chynnal diddordeb disgyblion yn llwyddiannus. Mae’r gweithgareddau o fewn meysydd llythrennedd, rhifedd a digidol yn adeiladu medrau disgyblion yn hynod effeithiol. O ganlyniad, maent yn gwneud cynnydd rhagorol yn eu medrau dros amser.

Fel rhan o’u gwaith hunanwerthuso, mae arweinwyr wedi adnabod datblygu medrau llafar grŵp o ddisgyblion sydd â’r Gymraeg yn ail neu’n drydydd iaith iddynt, fel blaenoriaeth gyfredol. Wrth ymateb i amcanion datblygu’r ysgol, rhoddir blaenoriaeth werthfawr i ddysgu proffesiynol staff. Er enghraifft, maent yn ymweld â’r ganolfan iaith leol i drafod dulliau trochi effeithiol gyda’r staff arbenigol. O ganlyniad, darperir cyfleoedd gwerthfawr i’r grŵp hwn o ddisgyblion gael eu trochi’n fedrus yn y Gymraeg, gan roi’r hyder iddynt gyfathrebu’n gynyddol naturiol. Mae arweinwyr yn cynnal gweithgaredd gwerthuso cyson a manwl gydag aelodau’r corff llywodraethol,

sy'n chwarae rhan lawn wrth graffu ar y ddarpariaeth. Mae'r aelodau'n gwerthuso'r meysydd gwella a chynnydd yr ysgol yn graff, ac yn barod i herio a chefnogi yn fwriadus.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siaradwyr Cymraeg hyderus a naturiol ac mae tafodiaith yr ardal i'w chlywed yn gwbl naturiol wrth iddynt sgwrsio. Mae staff yn cyfoethogi geirfa'r disgyblion yn llwyddiannus trwy amrediad o weithgareddau ysgogol, gan gynnwys gwahodd ymwelwyr i rannu eu profiad wrth ysgrifennu'n greadigol. Darperir cyfleoedd hynod gyfoethog i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llafar trwy weithgareddau drama sy'n annog eu dychymyg a'u creadigrwydd yn hynod effeithiol.

***Cameo: Defnyddio drama i hyrwyddo a datblygu medrau llafar, a medrau meddwl creadigol disgyblion meithrin, derbyn a Blwyddyn 1***

*Mae athrawon yn defnyddio dulliau drama yn fwriadus i ddatblygu ac ehangu geirfa mewn gweithgareddau sy'n hyrwyddo dychymyg disgyblion yn fedrus. Mae hyn yn rhan annatod o'r ddarpariaeth sy'n herio disgyblion i ddatblygu a gwella eu medrau llafar.*

*Mae'r athro a'r disgyblion yn gwisgo hetiau duon fel y cymeriad Rala Rwdins er mwyn teithio i Wlad y Rwla. Mae staff yn holi cwestiynau ac yn annog disgyblion i feddwl beth maent yn gallu ei 'weld' o'u hamgylch. Mae disgyblion yn egluro eu bod wedi dod o hyd i wahanol wrthrychau, er enghraifft dail sydd wedi eu peintio'n binc gan Strempan, neu bili pala sy'n bwyta mwydyn i ginio. Maent yn ymateb yn arbennig o aeddfed gan gynnal eu dychymyg wrth ddyfalbarhau am gyfnodau estynedig. Yn ogystal, mae athrawon yn cefnogi disgyblion i ymestyn eu hatebion gyda geirfa a phatrymau iaith cyfoethog trwy holi cwestiynau fel:*

*Athrawes: Beth ydi o?*
*Disgybl: Gwenyn*
*Athrawes: Pa fath o wenyn?*
*Disgybl: Gwenyn mawr, pigog, peryglus*

*Mae'r sesiynau hyn yn cael dylanwad cadarnhaol ar hyder disgyblion i fynegi eu hunain a chyfrannu at drafodaethau. Mae hefyd yn datblygu eu medrau iaith yn llwyddiannus wrth iddynt gymhwyso'r iaith mewn gweithgareddau darllen ac ysgrifennu yn annibynnol. Trwy gyfres o weithgareddau bwriadus, mae disgyblion yn datblygu eu medrau iaith yn gynyddol dros amser.*

Mae athrawon yn gwneud defnydd rhagorol o ddulliau addysgu amrywiol. Er enghraifft, maent yn canolbwyntio ar sicrhau bod disgyblion yn ynganu'n gywir er mwyn eu cefnogi i adnabod synau gyda'r llythrennau cysylltiedig. Mae disgyblion yn datblygu'n ddarllenwyr medrus yn fuan, gan eu bod wedi'u trwytho mewn iaith gyfoethog sy'n cael ei chyflwyno'n barhaus gan staff. Mae disgyblion yn ysgrifennu'n greadigol gyda chywirdeb arbennig erbyn diwedd Blwyddyn 1. Ym Mlynyddoedd 2 a 3, mae disgyblion yn trafod cynnwys llyfrau'n aeddfed wrth siarad am y plot a'r cymeriadau. Maent yn datblygu'n ysgrifenwyr hyderus, ac yn cynnwys ansoddeiriau a chymariaethau i gyfoethogi eu gwaith yn llwyddiannus.

Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau'n gelfydd ar gyfer datblygu medrau mathemateg a medrau digidol y disgyblion. Maent yn canolbwyntio'n fanwl ar ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o gysyniadau rhif, ac yn eu herio i gymhwyso eu medrau'n bwrpasol mewn gweithgareddau ymestynnol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu medrau corfforol mân a mawr yn llwyddiannus, er enghraifft wrth ddefnyddio gefail fechan yn ofalus a rheoli beiciau'n fedrus yn yr ardal allanol. Mewn gweithgareddau digidol, mae disgyblion yn defnyddio amrediad o feddalwedd yn hyderus, er enghraifft wrth gynnwys graffeg a sain at eu cyflwyniad i gyfoethogi profiad y gwyliwr. Maent yn recordio'u gwaith yn fedrus er mwyn ei rannu gyda'u rhieni trwy ddulliau digidol diogel.

Mae disgyblion yn mwynhau amrediad priodol o weithgareddau creadigol. Darperir cyfleoedd iddynt ddatblygu eu medrau trwy greu darluniau a phaentiadau amrywiol. Mae ymestyn y ddarpariaeth i wella medrau creadigol disgyblion yn faes sydd wedi ei adnabod fel blaenoriaeth i'w datblygu.

Mae disgyblion yn cyfrannu eu syniadau am yr hyn yr hoffent ei ddysgu ar ddechrau gwaith thema, ac yn gwybod y bydd athrawon yn ystyried eu hawgrymiadau. Mae'r cyfleoedd hyn yn sicrhau bod disgyblion yn gweld y cwricwlwm yn berthnasol iddyn nhw. Mae staff yn cynnig adborth adeiladol i ddisgyblion am eu dysgu sy'n eu cefnogi i wybod beth i'w wneud i wella eu gwaith a sut.

O oedran cynnar, mae disgyblion yn dethol gweithgareddau ar wahanol raddfa o her, gan egluro'n aeddfed pam y maent wedi dewis yr her honno ar gyfer arwain eu dysgu. Yn ystod y gweithgareddau hyn, maent yn meithrin eu medrau dysgu annibynnol yn hynod llwyddiannus ac yn dyfalbarhau'n ardderchog am gyfnodau estynedig.

***Cameo**: **Datblygu medrau dysgu annibynnol wrth adeiladu pontydd***

*Mae disgyblion Blwyddyn 2 a 3 yn dewis gweithgaredd sy'n eu herio i adeiladu ar eu gwybodaeth flaenorol am bontydd. Maent yn darllen cyfarwyddiadau'r dasg sy'n eu hannog i ddylunio ac adeiladu math arbennig o bont, (pont draws, pont bwa neu bont grog), gan ddefnyddio offer ailgylchu yn bwrpasol. Maent yn profi cryfder y bont er mwyn ceisio darganfod pa fath o bont sydd gryfaf.*

*Mae disgyblion yn trafod gofynion y dasg yn fedrus, gan benderfynu mai creu cynllun er mwyn adnabod yr hyn sydd ei angen arnynt fyddai'n fuddiol ar ddechrau'r dasg. Maent yn cydweithio'n aeddfed, gan drafod ac addasu eu cynlluniau wrth arbrofi a thrafod eu canfyddiadau. Maent yn datblygu eu medrau meddwl yn effeithiol wrth drafod y dull gorau i gyflawni gofynion y dasg. Maent yn defnyddio offer fel llif i greu sylfaen pren gadarn i'w pont. Mae disgyblion yn cydweithio'n fedrus wrth fesur gwahanol rannau'r bont gan ddefnyddio unedau safonol yn llwyddiannus.*

*Mae'r disgyblion yn datblygu eu medrau dysgu annibynnol o oedran cynnar yn effeithiol. Trwy hyn, maent yn hyderus i ddefnyddio a chymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd wrth gydweithio'n dda â'i gilydd mewn gweithgareddau ymestynnol. Mae hyn yn eu cefnogi'n fwriadus i wneud cynnydd cadarn yn eu medrau.*

## Cydymffurfiaeth statudol

**Trefniadau diogelu**

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

**Bwyta ac yfed yn iach**

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

**Cyllid ysgol**

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

**Materion iechyd a diogelwch (diogelwch y safle)**

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelwch safleoedd yn peri unrhyw bryder.

## Argymhellion a chamau nesaf

Rydym wedi gwneud 1 argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:

A1 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau creadigol mewn gweithgareddau celf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Gwybodaeth ychwanegol

### Addysgu a dysgu

- Mae Ysgol Morfa Nefyn yn gymuned hapus sy'n darparu addysg a gofal o safon uchel ar gyfer ei disgyblion.
- Mae cwricwlwm yr ysgol wedi ei seilio'n gadarn ym milltir sgwâr y disgyblion. Mae'r staff yn cydweithio'n agos â rhieni ac aelodau'r gymuned er mwyn datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o'u cynefin. Mae'r cwricwlwm yn datblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o hanes a daearyddiaeth yr ardal, a phwysigrwydd mudiadau fel sefydliad y Bad achub wrth drafod diogelwch ar y môr.
- Mae gan yr athrawon a'r staff cymorth adnabyddiaeth drylwyr iawn o'r disgyblion yn eu gofal. Maent yn cynllunio'n ofalus a hynod effeithiol ar gyfer datblygu medrau'r disgyblion.
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da iawn yn eu medrau, gan gynnwys disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim a'r disgyblion sydd wedi eu hadnabod ag anghenion dysgu ychwanegol.
- Yn ystod eu gwersi, mae bron bob disgybl yn dwyn eu dysgu blaenorol i gof yn llwyddiannus. Maent yn cydweithio'n aeddfed o oedran cynnar, ac yn barchus tuag at ei gilydd ac oedolion.
- Mae athrawon yn cynllunio amrediad o weithgareddau er mwyn annog datblygiad medrau'r disgyblion. Maent yn cydweithio'n llwyddiannus â'r staff cymorth er mwyn cynnal bwrlwm y dysgu. Mae'r gweithgareddau o fewn meysydd llythrennedd, rhifedd a digidol yn adeiladu medrau'r disgyblion yn llwyddiannus iawn.
- Mae staff yn darparu cyfleoedd effeithiol iawn i'r disgyblion ddatblygu eu medrau llafar trwy gyfrwng sesiynau drama. Mae'r gwaith hwn yn cael effaith wirioneddol ar hyder y disgyblion i fynegi eu hunain ac yn datblygu eu creadigrwydd yn llwyddiannus iawn.
- Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn gwneud defnydd rhagorol o ddulliau addysgu amrywiol i gefnogi disgyblion i ynganu'n gywir a'u bod yn adnabod synau a llythrennau cysylltiedig yn yr oedran meithrin a derbyn.
- Mae'r athrawon yn trafod straeon gyda disgyblion, gan ystyried y gwahanol gymeriadau er mwyn ystyried sut mae stori'n datblygu. Mae'r disgyblion yn adnabod ac yn adeiladu geiriau a chymalau yn llwyddiannus o oedran cynnar, gan elwa'n fawr o adnoddau pwrpasol yn ardaloedd y ddarpariaeth.
- Mae disgyblion yn datblygu'n ddarllenwyr medrus yn fuan, gan eu bod wedi eu trwytho mewn iaith gyfoethog sy'n cael ei bwydo'n barhaus gan y staff. Maent yn ysgrifennu'n greadigol gyda chywirdeb arbennig erbyn diwedd Blwyddyn 1.
- Ym Mlwyddyn 2 a 3, mae'r gwaith buddiol hwn yn parhau, ac mae'r disgyblion yn darllen gyda mynegiant hynod effeithiol. Maent yn trafod eu llyfrau'n aeddfed. Maent yn datblygu'n ysgrifenwyr hyderus ac aeddfed sy'n mynegi eu hunain yn llwyddiannus mewn amrywiol ffurfiau. Maent yn cynnwys ansoddeiriau a chymariaethau er mwyn cyfoethogi eu gwaith. Mae cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion Blwyddyn 3 ddatblygu eu darllen a'u hysgrifennu Saesneg yn gadarn.

- Mae'r athrawon yn yr un modd yn cynllunio'n gelfydd ar gyfer datblygu medrau mathemateg a medrau digidol y disgyblion. Maent yn canolbwyntio ar ddatblygu dealltwriaeth disgyblion, er enghraifft wrth ddod i ddeall y berthynas rhwng lluosi a rhannu ac adnabod sut mae datblygu ymwybyddiaeth o'r berthynas hon yn hwyluso nifer o elfennau o'u gwaith rhifedd.
- Mae athrawon yn darparu cyfleoedd ymestynnol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau digidol mewn amrywiol gyd-destunau. Maent yn defnyddio amrediad o feddalwedd yn hyderus gan ddefnyddio graffeg a sain er mwyn cyfoethogi profiad y sawl sy'n gwylio, er enghraifft wrth recordio'u lleisiau yn siarad yn dawel er mwyn creu effaith a thensiwn.
- Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymhwyso eu medrau mewn gwahanol gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Mae cyfleoedd i ddysgu medrau mapio yng nghyd-destun yr ardal leol, a dysgu am hanes yr ardal a defnyddio ystod o dystiolaeth ffotograffig er mwyn adnabod sut mae wedi newid dros y blynyddoedd.
- Mae athrawon yn gwneud defnydd effeithiol iawn o'r ardaloedd tu allan er mwyn darparu cyfleoedd i'r disgyblion gynhwyso eu medrau. Er enghraifft, maent yn mesur pa mor bell gall disgyblion daflu gwahanol wrthrychau gan ddefnyddio centimetrau a metrau ym Mlwyddyn 2 a 3.
- Ar draws yr ysgol, mae'r disgyblion yn dethol gweithgareddau annibynnol gyda'r her sydd fwyaf addas iddynt, ac yn egluro pam y maent wedi dewis yr her honno ar gyfer eu tasg. Yn ystod y gweithgareddau hyn, maent yn datblygu eu medrau dysgu annibynnol yn dda ac yn dyfalbarhau'r ardderchog am gyfnodau estynedig.
- Mae disgyblion yn cael cyfleoedd buddiol i gyfrannu eu syniadau ynglŷn â'r hyn yr hoffent ei dysgu, ac yn gwybod y bydd yr athrawon yn ystyried eu syniadau. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn gweld y cwricwlwm yn berthnasol iddyn nhw.
- Mae adborth ysgrifenedig cryno a buddiol yn cael ei ddarparu ar gyfer y disgyblion sy'n cysylltu'n agos â'r meini prawf llwyddiant ar gyfer gweithgaredd penodol. Mae cyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion ystyried ac ymateb i'r adborth er mwyn datblygu eu gwaith ymhellach.
- Ar draws yr holl ystod oedran, mae disgyblion yn arddangos agwedd arbennig o gadarnhaol at eu dysgu. Mae staff yn cynllunio cyfleoedd iddynt ddatblygu medrau dysgu annibynnol o'r cychwyn cyntaf yn y dosbarth meithrin. Mae'r plant bach yn magu hyder trwy gydweithio â'r disgyblion hynaf, sy'n gweithredu fel modelau rôl rhagorol iddynt. Mae hon yn nodwedd gadarnhaol o waith yr ysgol.
- Mae gan yr ysgol systemau manwl ac effeithiol er mwyn olrhain cynnydd disgyblion dros amser, ac maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn fedrus er mwyn addasu eu cynlluniau yn ôl y galw.
- Mae ardaloedd dysgu'r ysgol wedi eu sefydlu'n dda ac mae'r ardaloedd tu mewn a thu allan yn hyrwyddo datblygiad medrau'r disgyblion yn llwyddiannus.
- Mae'r disgyblion yn mwynhau amrediad priodol o weithgareddau creadigol. Mae cyfleoedd rheolaidd iddynt greu darluniau a phaentiadau amrywiol, ond hyd yma nid yw'r agwedd hon wedi datblygu'n llawn.
- Mae gan yr ysgol berthynas agos a chynhaliol â rhieni.

## Gofal, cymorth a lles

- Trwy wreiddio systemau diogelu cadarn, mae'r ysgol yn cynnal diwylliant effeithiol o ddiogelu. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn datgan eu bod nhw'n cael eu parchu a'u trin yn deg.
- Mae'r ysgol wedi bod yn gyson lwyddiannus wrth feithrin hinsawdd ac awyrgylch agored. Canlyniad hyn yw bod bron pob un o'r disgyblion yn barod i drafod unrhyw bryderon, sy'n sicrhau eu bod yn teimlo'n rhydd rhag cam-drin corfforol, emosiynol a geiriol. Enghraifft o hyn yw'r Bocs Siarad a leolir yn ganolig ble gellir rhannu unrhyw bryderon.
- Mae gan yr ysgol drefniadau trylwyr i gefnogi disgyblion sydd ag anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion hynny yn ymgysylltu'n dda iawn mewn ystod eang o brofiadau newydd ac anghyfarwydd.
- Mae gan yr ysgol reolau, gwobrau a sancsiynau clir, a gymhwysir yn gyson, i gynorthwyo disgyblion i ddeall ac annog ymddygiad cadarnhaol. O ganlyniad, mae ymddygiad bron bob un yn rhagorol yn y gwersi ac yn ystod amseroedd egwyl a chinio.
- Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol, megis therapydd iaith a therapydd galwedigaethol, er mwyn cefnogi disgyblion sydd wedi eu hadnabod ag anghenion penodol, ac o ganlyniad, mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ADY yn gadarn ac effeithiol. Sgil-effaith hyn yw bod bron pob un o'r disgyblion sy'n derbyn gwahanol ymyraethau neu gefnogaeth yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau dros amser, ac yn magu hyder yn llwyddiannus.
- Trwy waith partneriaeth effeithiol ac wrth hyrwyddo a monitro presenoldeb yn gyson, gan gynnwys llythyru rhieni yn unol â'r polisi, yn dilyn cyfnodau o bresenoldeb isel, mae presenoldeb ar draws yr ysgol yn uchel.
- Mae gan yr athrawon a staff ategol ddisgwyliadau uchel o ran moesau a pharch. Mae hyn yn nodwedd gadarn o'r ysgol, gydag ymdeimlad cryf o barch a chwrteisi sydd gan ddisgyblion at eu cyfoedion ac at oedolion ac ymwelwyr.
- Mae bron pob disgybl yn ofalgar o'i gilydd ac yn rhoi ystyriaeth ofalus i anghenion eu cyfoedion. Enghraifft nodedig yw'r Bydis Buarth sy'n gymorth i'r disgyblion yn ystod amseroedd egwyl gan sicrhau bod pob un yn cyd-chwarae'n hapus. Mae hyn o ganlyniad i'r cyfleoedd mae'r disgyblion yn eu cael i ymgymryd â chyfrifoldebau arweiniol a datblygu eu medrau arwain.
- Mae'r ysgol yn sicrhau, trwy drefniadaeth a chydweithio effeithiol, bod dysgwyr yn trosglwyddo'n llyfn i flwyddyn pedwar yn eu hysgol nesaf ar ddiwedd eu cyfnod yn Ysgol Morfa Nefyn. Mae'r staff yn rhannu'r wybodaeth fwyaf cyfredol am y dysgwyr a chynhelir sawl ymweliad i'r ysgol gan y disgyblion. Mae hyn yn sicrhau bod y disgyblion yn teimlo'n hyderus wrth drosglwyddo i'w hysgol newydd.

## Arwain a gwella

- Mae'r pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir ar gyfer yr ysgol. Mae ei gweledigaeth wedi ei seilio'n gadarn ar sicrhau addysg gynhwysol o'r safon uchaf ar gyfer disgyblion Ysgol Morfa Nefyn. Mae'n cydweithio'n agos â'r tîm gweithgar sydd ganddi yn yr ysgol, a gyda'r corff llywodraethol, i sicrhau profiadau dysgu cyfoethog ac ymestynnol ar gyfer y disgyblion. Mae arwyddair yr ysgol yn crisialu'r weledigaeth hon o anelu am ragoriaeth ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol: 'Dringa i fyny, dringa i'r sêr'.
- Mae'r weledigaeth ar gyfer ysgol hapus lle mae pob disgybl, beth bynnag fo'i allu neu unrhyw heriau y mae wedi eu wynebu yn ei gefndir, yn derbyn profiadau dysgu cynhwysol sy'n ei herio i ddatblygu eu medrau hyd orau ei allu.
- Mae'r ysgol hefyd yn canolbwyntio'n barhaus ar gynnal lles a hapusrwydd y disgyblion. Mae'r ysgol yn rhan greiddiol o'i chymuned leol, ac mae trigolion y pentref yn chwarae rôl amlwg ym mhrofiadau dysgu'r disgyblion o fewn yr ardal.
- Mae'r llywodraethwyr yn chwarae rôl amlwg ac ymarferol ym mywyd a gwaith beunyddiol yr ysgol. Maent yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd er mwyn cynnal cyfarfodydd sy'n canolbwyntio ar wahanol agweddau o ddatblygiad yr ysgol. Mae ganddynt rolau dynodedig mewn partneriaeth a staff, er enghraifft wrth ganolbwyntio'n benodol ar flaenoriaethau o fewn y cynllun datblygu ysgol (CDY) cyfredol. Maent yn cynnal teithiau dysgu, yn siarad â disgyblion, ac yn craffu ar waith mewn llyfrau ac arddangosfeydd yn rheolaidd. Mae aelodau profiadol o'r corff yn cydweithio ag aelodau llai profiadol er mwyn datblygu eu gwybodaeth ac adeiladu cynhwysedd o fewn y corff. O ganlyniad, mae ganddynt wybodaeth drylwyr am weithdrefnau'r ysgol, a golwg gadarn ar gynnydd disgyblion yn sgil unrhyw newidiadau a gyflwynir. Maent yn rhan greiddiol o waith craffu'r ysgol, ac o ganlyniad, mae eu rôl i herio fel y bo'n briodol, wedi datblygu'n effeithiol.
- O dan arweiniad y pennaeth, mae gweithdrefnau hunanwerthuso wedi gwreiddio'n llwyddiannus. Mae arweinwyr yn ystyried amrediad eang o dystiolaeth i adnabod blaenoriaethau gwella sy'n canolbwyntio ar ddatblygu'r ddarpariaeth er mwyn gwella profiadau dysgu, cynnydd a lles disgyblion. Mae'r holl dîm yn cyfrannu at y gweithdrefnau hyn, ac mae ganddynt ddealltwriaeth o'u rolau wrth weithredu er mwyn datblygu'r ddarpariaeth. Mae gwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant yn rhan annatod o waith yr ysgol. Mae diwylliant o anelu am ragoriaeth wedi gwreiddio'n gadarn.
- Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel ohonynt eu hunain a holl staff yr ysgol. Mae'r pennaeth yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i'r athrawon gymryd rôl arweiniol, er enghraifft wrth ganolbwyntio ar ddatblygu elfennau o rifedd fel rhan o flaenoriaeth benodol o fewn y cynllun datblygu ysgol cyfredol.
- Mae'r CDY wedi ei seilio ar amrediad eang a dibynadwy o dystiolaeth ac yn cynnwys manylder priodol wrth nodi'r camau gweithredu i'w cymryd yn ystod y flwyddyn academaidd er mwyn addasu'r ddarpariaeth. Mae'r camau gweithredu yn arwain at feini prawf manwl sy'n gweithredu fel cerrig milltir i fesur cynnydd. Mae arweinwyr yn nodi'n glir yr hyn y disgwylir ei weld yn sgil gweithgaredd y flwyddyn. Mae hyn yn ddull effeithiol o werthuso cynnydd yn erbyn y targedau ac yn cyfrannu at drefniadau atebolrwydd da. Dyrennir arian yn briodol ar gyfer adnoddau er mwyn llwyddo i gyrraedd yr amcanion.

- Mae cyfleoedd dysgu proffesiynol buddiol yn cael eu trefnu ar gyfer yr holl staff. Mae'r cyfleoedd hyn yn codi o anghenion cyfredol yr ysgol ac o anghenion datblygiad a diddordebau unigolion. Maent yn aml hefyd yn rhan o brosesau rheoli perfformiad unigolion. Enghraifft nodedig o hyn yw'r cyfleoedd i ddilyn rhaglen llafaredd sy'n hyrwyddo datblygu hyder disgyblion sy'n newydd i'r Gymraeg er mwyn iddynt fagu hyder wrth siarad. Yn ogystal, mae'r staff yn ymweld â'r ganolfan iaith yn lleol er mwyn trafod dulliau trochi iaith gyda'r staff arbenigol yno.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Ynglŷn ag Ysgol Morfa Nefyn

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Morfa Nefyn |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 33 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 24 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 5 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%) | 11.7% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%) | |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 83.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2018 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | Medi 2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 13/11/2023 |
| Gwybodaeth ychwanegol | Mae Ysgol Morfa Nefyn yn darparu ar gyfer disgyblion o oedran Meithrin hyd at Flwyddyn 3. |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:

Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Atodiad 2: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae’r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *‘y rhan fwyaf o ddisgyblion…’* neu *‘ychydig iawn o ddisgyblion…’*. Rydym yn defnyddio’r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y **caiff** ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 18/01/2024